**Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I: Pob Pennaeth Cynllunio

Date: 12 Tachwedd 2018

Annwyl Gyfaill,

**YMCHWIL I MEWN I'R GOST O DDATBLYGIADAU SEILWAITH YNG NGHYMRU I DDATBLYGWYR, AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL A CHYMUNEDAU**

Cysylltodd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio â chi yn ddiweddar ynghylch ymgynghoriad a oedd yn cynnig newidiadau i gydsynio seilwaith yng Nghymru. Disgwylir cyhoeddi ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth ar yr ymgynghoriad hwn yn ddiweddarach y mis hwn.

Er mwyn cynorthwyo datblygu proses cydsynio seilwaith pwrpasol yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn deall y costau gweithdrefnol presennol a rhagolygol i randdeiliaid am gymryd rhan mewn prosesau cydsynio seilwaith. Bydd hyn hefyd yn ein cynorthwyo wrth bennu lefel briodol o iawndal i Awdurdodau Cynllunio Lleol ("ACLlau") i adennill eu costau wrth gyfrannu at unrhyw ran statudol o broses cydsynio newydd.

Penodwyd Arup i ymgymryd ag ymchwil ar ein rhan. Bydd yr ymchwil hwn yn ystyried ceisiadau a dderbynnir gan awdurdodau cydsynio a'r costau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn prosesau cyfredol ar gyfer cydnsynio seilwaith.

Bydd y dasg gyntaf yn cynnwys casglu data ar geisiadau a dderbynnir gan awdurdodau cydsynio yng Nghymru a Dyfroedd Cymru dros y pum mlynedd blaenorol. Ceir y wybodaeth hon drwy astudiaeth ddesg o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ac, os oes angen rhagor o wybodaeth, trwy geisiadau data i sampl o ACLlau.

Bydd yr ail dasg yn cynnwys pennu'r costau gweithdrefnol presennol a rhagolygol i rhanddeiliaid mewn prosesau cydsynio seilwaith. I ymgymryd â'r ymarfer hwn, byddwn yn gofyn am ddetholiad o gostau gweithdrefnol gwirioneddol ac amcangyfrifedig o sampl o ACLlau. Bydd proses adrodd ddienw yn cael ei fabwysiadu.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru neu Arup yn cysylltu â chi yn y dyfodol agos i ofyn am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ddwy dasg y disgrifir uchod. Bydd y ceisiadau hyn yn canolbwyntio ar wybodaeth nad yw ar gael trwy ffynonellau cyhoeddedig, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd rhan yn y prosiect ymchwil pwysig hwn.




Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line: 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Email: planning.directorate@gov.wales
Ebost: planning.directorate@llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau ynglŷn â'r ymchwil hwn, cysyllltwch â Lewis Thomas (03000 25 3201), sy'n hapus i gynorthwyo.

Yr eiddoch yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Llywodraeth Cymru**